

## Amgueddfa Cymru


# O Adre

















Croeso i Amgueddfa Cymru o adre. Tu mewn i'r llyfr hwn mae llwyth o weithgareddau a syniadau creadigol sy wedi cael eu hysbrydoli gan gasgliadau Amgueddfa Cymru.

Rydyn ni wrth ein boddau'n gweld beth mae pobl wedi'i greu felly beth am dynnu lluniau a'u rhannu ar gyfryngau cymdeithasol. Cofia ein tagio ni.
#AmgueddfaCymru
#AmgueddfaAdref

Mae llawer o weithgareddau hwyliog ar ein gwefan www.amgueddfa.cymru/addysg ac ar Twitter @Amgueddfa_Learn

Mae'n adnoddau ni i gyd yn ddwyieithog. Mae'r rhain yn adnodd gwych i deuluoedd sy'n siarad Cymraeg neu'n dysgu.

Wyt ti'n adnabod ein hamgueddfeydd o'r lluniau?

amgueddfa cymru
national museum wales

# Ysbrydoliaeth ym Mhobman

Mae tir a môr Cymru wedi bod yn ysbrydoli arlunwyr ers cannoedd o flynyddoedd. Alli di wneud tirlun dy hun gartref allan o bapur sgrap?



*Arennig* gan James Dickson Innes (1887 - 1914)



Beth am ddefnyddio hen gylchgronau a phapurau newydd i ychwanegu gwead a manylder.



Mae ein cartrefi yn llawn ysbrydoliaeth hefyd.

Beth am wneud portread o'th deulu neu wisgo i fyny fel dy hoff ddarlun neu wrthrych?






Beth am wneud arfbais teuluol fel yr un yma o Lys Llywelyn (ailgread o un o lysoedd brenhinol Tywysogion Gwynedd).

Penderfyna ar siâp. Gallai fod yn ddraig neu'n dŷ neu'n rhywbeth personol i'th deulu. Llenwa dy siâp gyda'r holl bethau sy'n bwysig i chi fel teulu.


# Defnyddia Beth Bynnag Sydd Gen Ti

Gall y gweithgareddau hyn i gyd gael eu gwneud gan ddefnyddio pethau cyffredin o dy gartref. Cofia lanhau pethau cyn eu defnyddio a **golcha dy ddwylo bob amser.**






Defnyddia ddarn o bapur i wneud cwch. Mae papur newydd yn gweithio'n dda! Cofia ei addurno.



Mae hen gylchgronau, pamffledi neu bapurau newydd yn gwneud potiau gwych i blanhigion bach. Beth am blannu hadau berwr mewn pot? Ceisia osod y potiau mewn gwahanol lefydd i weld pa mor gyflym fyddan nhw'n tyfu.





Gwna gerflun o sbwriel! Cofia ei dynnu'n ddarnau ar ôl gorffen er mwyn ailgylchu'r darnau.



# Gwneud dy Farc



Rho gynnig ar yr arbrofion hyn i wneud dy farc mewn ffyrdd gwahanol. Mae sialc yn wych ar gyfer tynnu lluniau tu allan. Beth am arbrofi ar waliau neu balmentydd? Beth am ailgreu celf ogof drwy arlunio mamoth blewog?




**Wyneb i waered.** Gluda ddarn o bapur o dan fwrdd a cheisia dynnu llun wrth orwedd ar dy gefn.



**Oeddet ti'n gwybod? Nid glo yw siarcol – mae'n cael ei gynhyrchu drwy losgi pren**

**Gêm arlunio:** Cymer ddarn mawr o bapur a'i blygu i wneud wyth blwch. Mae un person yn darllen yr heriau ac mae'r gweddill yn arlunio. Symudwch ymlaen i flwch newydd ar gyfer pob her newydd a dilyn y cyfarwyddiadau am 30 eiliad.

1. Llenwi blwch gyda sgwariau
2. Pwyso mor galed â phosib a sgriblo i lenwi blwch
3. Pwyso mor ysgafn â phosib a sgriblo i lenwi blwch
4. Llenwi blwch gyda chylchoedd
5. Llenwi blwch gyda llinellau igam ogam
6. Llenwi blwch gyda thonnau
7. Llenwi blwch gyda dotiau
8. Llenwi blwch heb edrych ar y dudalen



# Beth yw dy Stori?

Mae amgueddfeydd yn adrodd straeon am bobl a llefydd a phethau. Mae *zine* yn ffordd dda i rannu stori. Defnyddia unrhyw bapur sydd gen ti, dilyn y templed isod ac ysgrifennu neu arlunio stori.

Gelli wneud *zine* am unrhyw beth. Beth am wneud un am dy hoff ffilm/cerddoriaeth / amgueddfa /tîm chwaraeon/ anifail?


**Oeddet ti'n gwybod? Mae gwasg argraffu yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau**

Chwarae gêm dweud stori. Mae hyn yn gweithio'n well gyda chriw o bobl. Casglwch bethau o'ch tŷ a'u rhoi mewn bag, Dewiswch un peth ar y tro a chreu stori gyda nhw.


Cerdd siâp: Ceisia greu cerdd sy'n disgrifio dy hoff beth o'r Amgueddfa. Disgrifia dy hoff wrthrych Amgueddfa a'i ysgrifennu yn siâp y gwrthrych

**Sut i fynd ati:**

1. Plygwch eich papur fel hyn. wedyn torrwch trwy'r llinell ddu **trwchus**.
2. Plygwch ar hyd y llinell doredig fel hyn.
3. Wedyn gwnewch yr un peth ar yr ochr arall.
4. Agorwch eich papur a'i blygu ar ei hyd.
5. Gwthiwch y ddau ben at ei gilydd fel hyn.
6. Wedyn plygwch i wneud llyfryn gan wneud yn siŵr bod y clawr ar y blaen.







# Ditectif Natur

Mae natur i'w weld ym mhobman os edrychi di'n ofalus.



Casgla bethau wrth fynd am dro a tyrd â nhw adref i'w gwneud yn collage. Rydym wedi gwneud un ar siâp blodau a choeden, ond gelli ddefnyddio dy ddychymyg i wneud unrhyw beth!



Tynna lun o be weli di. Mae gwyddonwyr yn yr amgueddfa yn darlunio rhywogaethau newydd er mwyn eu hadnabod. Beth am fynd i ddarlunio bwystfilod bach?




Alli di fod yn Dditectif Diwydiannol? Chwilia am dystiolaeth o orffennol diwydiannol Cymru pan fyddi allan yn archwilio.

Beth am chwarae gêm o bingo natur wrth fynd am dro?



# Archwilio Patrwm



Cwilt clytwaith o
Amgueddfa Wlân Cymru

Mae llawer o bethau patrymog yn yr Amgueddfa ac mae llawer o ffyrdd i ddefnyddio patrwm pan fyddi'n arlunio a chreu celf.

Beth am wneud collage clytwaith neu wehyddu papur – fel y cwiltiau hardd hyn o Amgueddfa Wlân Cymru. Ceisia gymysgu'r mathau o bapur i gael effeithiau gwahanol.






Roedd rhai Rhufeiniaid yn addurno lloriau eu cartrefi gyda mosaig. Gwna fosaig papur dy hun drwy dorri gwahanol fathau o bapur yn sgwariau bach a'u gludo nhw ar bapur i wneud patrwm.




Darn o fosaig
o Amgueddfa
Lleng Rufeinig
Cymru

Cymesuredd - dyma rai pethau cymesur o'r amgueddfa. Ceisia wneud patrymau cymesur dy hun trwy blygu dalen o bapur yn ei hanner a thorri siapiau allan.





Tarian Rufeinig,
Amgueddfa Lleng
Rufeinig Cymru



Drwm Weindio,
Big Pit Amgueddfa
Lofaol Cymru



Sied Drenau,
Amgueddfa Lechi
Cymru

# Archwilio dy Fyd – cyfle i ymarfer dy sgiliau creadigo
neu ysgrifennu am beth weli di wrth fynd am dro



Gwelais rywbeth mawr iawn!

I saw something really big!

Here is the prettiest thing I saw.

Dyma'r peth pertaf welais i.



u have developed and use this sheet to
out

l a defnyddio'r daflen yma i wneud llun

This is the smallest thing I found.

Dyma'r
peth lleiaf
ffeindiais i.



Mae hwn yn rhyfedd iawn.

This is really strange.

# Explore Your World

– practice the creative skills yo[u]
draw or write about the things that you find when you're out and abo[ut]